"A pheidiwch ag ofni'r rhai sy'n lladd y corff, ond na allant ladd yr enaid; ofnwch yn hytrach yr hwn sy'n gallu dinistrio'r enaid a'r corff yn uffern."
(Mathew 10:28)

Dyma enghraifft arall o Fugail mawr y defaid yn cysuro'i braidd. Mae wedi rhybuddio'r disgyblion am erledigaeth i ddod yn enw Crist, ond nawr mae'n eu sicrhau nad yw hynny'n rheswm iddynt gael eu llethu gan ofn.

Y Bleiddiaid

Wrth baratoi ei ddilynwyr ar gyfer erledigaeth, mae Iesu'n galw'r erlidwyr yn fleiddiaid er mwyn dangos mai eu nod fydd llarpio'r credinwyr a llarpio'r Ffydd Gristnogol, fel yr oedd rhai am larpio Crist ei hun. Gall y rhain eu llusgo gerbron llywodraethwyr neu frenhinoedd, ac roedd nifer o erlidwyr y Ffydd yn arweinwyr blaenllaw crefyddol. Gall gwrthwynebiad ddod o'r teulu hyd yn oed.
Felly, gall Cristnogion ddisgwyl cael eu bygwth, eu bradychu, eu traddodi i'r awdurdodau neu eu herlid mewn ffyrdd eraill. Mae hyn wedi digwydd ar hyd y canrifoedd ac mae'n dal i ddigwydd heddiw.

Rhoddwyd enwau chwe gweinidog yng Ngholombia ar 'restr y rhai i'w lladd' milwyr gwrthryfel, a hynny oherwydd llwyddiant yr Efengyl yn denu dynion ifainc at Grist, sydd yn peri iddynt golli'r awydd i ryfela yn y rhyfel cartref gwaedlyd sydd yno. Saethwyd un yn farw ym Mawrth 2006.

Cafodd gweinidog a'i gynulleidfa yn India eu gwahardd rhag cynnal addoliad Cristnogol yn Hydref 2006, a rhoddwyd pwysau mawr arnynt i gymryd rhan mewn seremonïau crefyddol Hindŵaidd gan arweinwyr crefyddol llwyth y Lambini yn nhalaith Karnataka. Plygodd wyth teulu o dan y pwysau, ond pan wrthododd tri theulu ag ymuno, cawsant eu diarddel yn swyddogol o'r gymuned yn syth.

Datguddio'r cuddiedig

Mewn erledigaeth, mae llawer o ffalster, celwydd a thwyll, ac mae gwirionedd yn cael ei guddio. Pan ddaw Dydd y Farn, Crist fydd y Barnwr, a chaiff pawb ei adnabod a'i fesur ganddo Fe. Daw'r hyn a guddiwyd i'r amlwg – oherwydd gyda theyrnasiad Crist daw cyfiawnder gwirioneddol i'r orsedd: **"bydd ef yn goleuo pethau cudd y tywyllwch ac yn gwneud bwriadau'r galon yn amlwg. Ac yna caiff pob un ei glod gan Dduw"** (1 Cor. 4:5).

Cyhoeddi sibrydion

Yna mae Iesu'n sôn am neges yn y tywyllwch a sibrydion yn y glust. Mae'n debyg mai neges lawn yr Efengyl sydd ganddo mewn golwg. Roedden nhw'n deall neges edifeirwch a chredu eisoes, ond doedd neges y groes ddim yn glir eto, er y byddai'r Meistr yn ei rhagfynegi eto i'r disgyblion. Eto, nid oedd yn eglur, roedd yn dywyll ac yn ddistaw yn eu meddyliau ar y pryd. Yn wir, daeth llawer o wirioneddau'n gliriach iddynt ar ôl y groes, yr atgyfodiad a'r esgyniad.

Efengyl gyhoeddus

Mae erlidwyr y Ffydd yn ceisio tawelu'r Efengyl a chuddio gogoniant y Gwaredwr. Ond mae Iesu'n dysgu nad cyfrinachau i'w sibrwd mo'r Efengyl ond newyddion da i'w cyhoeddi i'r holl fyd. Dylent fod fel y cyhoeddwr neu'r hen 'grïwr tref' ers talwm yn bloeddio'r newyddion gorau posib ar hyd a lled y ddaear er mwyn i bawb glywed.

Pwy i'w ofni

Mae Iesu'n cysuro'i braidd bychan trwy dweud nad oes angen ofni pobl. Mae gennym ddewis o hyd i ofni pobl neu i ofni Duw. Mae llyfr y Diarhebion yn rhoi cyngor tebyg ar y mater: **"Magl yw ofni pobl, ond diogel yw'r un sy'n ymddiried yn yr Arglwydd"** (29:25). Mae ofni pobl yn golygu peidio ag ymddiried yn Nuw, felly.

Er eu bod yn gallu niweidio a lladd (dim ond gyda chaniatâd Duw) ac achosi poen a thristwch mawr i Gristnogion a'u teuluoedd, all pobl ddim cyffwrdd yr enaid, neu'r ysbryd, sef y rhan ohonom sydd yn anweledig ac heb fater.

Llawer gwell yw ofni Duw. Mae Ef yn fwy na phob un dynol. Dylai pawb ei ofni â pharchedig ofn gan mai Ef fydd yn ein barnu. Ef fydd yn dedfrydu i'r nefoedd neu i uffern, a bydd erlidwyr y Ffydd, fel Cristnogion, yn gorfod ymddangos ger ei fron.

Gwylio gofalus

Does dim angen ofni, oherwydd mai'r Tad nefol yn gofalu am ac yn gwarchod ei blant. Os yw hynny'n reddf i'r mwyafrif ohonom ni, fel ei greaduriaid, gymaint mwy y bydd ein Creawdwr yn gwarchod ei bobl, y rhai sydd wedi derbyn ei Fab.

Mae Iesu'n dadlau o'r lleiaf i'r mwyaf: os yw Duw yn gofalu am aderyn y to sydd yn werth dimau, faint mwy fydd ei ofal dros ei blant sydd wedi eu prynu â gwerthfawr waed Crist?

Er iddo ganiatáu mesur o ryddid ewyllys i'r diafol ac i rai dynol, ac mae hynny'n arwain rhai i'n herlid, ni all hynny dorri cwlwm cariad Duw amdanom yng Nghrist.